


Ffantasi



Tŷ'r Hobit

Ydych chi wedi gweld y ffilm *The Hobbit*?

Ydych chi wedi darllen y nofel *The Hobbit*?

Ydych chi wedi chwarae'r gêm cyfrifiadur *The Hobbit*?


Ydych chi'n cofio tŷ'r hobit?



Llun 1




Llun 2





Llun 3






Llun 4


Ffantasi ydy *The Hobbit* - a ffantasi ydy tŷ'r hobit yn y lluniau [uchod](#).

Ond [nid](#) ffantasi ydy'r Tŷ Hobit yma.





Llun 5





Llun 6

Tŷ'r Hobit

Beth: Tŷ'r Hobit

Ble: Sir Benfro

Pwy: Mae Simon Dale a'i deulu'n byw yn y tŷ. Simon [adeiladodd](#) y tŷ.

Pa fath o dŷ: Tŷ "gwyRDD" ydy e, e.e.

- Mae'r tŷ "yn y [bryn](#)" felly dydy e ddim yn [sbwyllo'r ardal](#) ac mae e'n gynnes.
- Mae Simon wedi [ailgylchu](#) pethau yn y tŷ, e.e. ffenestri, [ceblau ac ati](#).
- Mae paneli haul ar y tŷ.
- Mae toiled compost yn y tŷ.
- Mae'r dŵr yn dod o [ffynnon](#).
- Mae gardd lle maen nhw'n tyfu bwyd.

Pris adeiladu: Tua £3,000

Barn: Mae'n [glyd](#). Mae'n hardd.

Os ydych chi eisiau gweld lluniau o'r tŷ hobbit, ewch i:


<http://inhabitat.com/extraordinary-off-grid-hobbit-home-in-wales-only-cost-3000-to-build/olympus-digital-camera-59>

<http://www.simondale.net/hobbit.htm>

Geirfa

uchod	above
nid	not
adeiladodd	built
bryn	hill
sbwyllo	(to) spoil
ardal	area
ailgylchu	(to) recycle
ac ati	etc.

ceblau	cables
ffynnon	well
clyd	cosy






Aliwns!

Edrychwch ar y sioe sleidiau yma.

Sleid 1



Sleid 2





Sleid 3



Sleid 4





'Nôl

Nesaf

Edrychwch ar yr eirfa yma.

Geirfa

aliwns	aliens
llong ofod	spaceship
syrthio	(to) fall
yr awyr	the sky
glanio	(to) land
y Ddaear	the Earth

Canu da?

Rydych chi'n mynd i wylïo fffilm. Dyma ychydig o help i chi os ydych chi eisiau help.

Geirfa

ifanc	young
clyweliadau	auditions
mynyddoedd	mountains
ennill	(to) win
cystadleuaeth	competition
cariad	boyfriend
golygus	handsome
gwestai	hotels
gawn ni weld	We'll see

Sgript

Cyflwynydd: Noswaith dda o'r stiwdio.

Cyflwynydd: Mae grŵp arall o bobl [ifanc](#) yn aros i ganu yn y [clyweliadau](#) ar gyfer "Cana i mi".

Cyflwynydd: Wel, dyma'r person nesaf i ganu. Beth am siarad gyda hi?

Cyflwynydd: lawn ... pwy wyt ti?

Ffion: Ffion Jones ydw i.

Cyflwynydd: O ble wyt ti'n dod, Ffion?

Ffion: Dw i'n dod o Landudno.

Cyflwynydd: Beth ydy dy waith di?

Ffion: Dw i'n nyrs.

Cyflwynydd: Beth ydy dy hobïau di?

Ffion: Wel, dw i'n hoffi cerdded a beicio.

Cyflwynydd: Cerdded a beicio?

Ffion: Dw i'n hoffi cerdded a beicio yn y [mynyddoedd](#).

Cyflwynydd: Hyfryd!

Ffion: A dw i'n hoffi canu, wrth gwrs.

Cyflwynydd: Pam wyt ti yma, Ffion?

Ffion: Achos dw i eisiau [ennill](#) y [gystadleuaeth](#) "Cana i mi".

Cyflwynydd: O?

Ffion: A dw i eisiau cael llawer o arian ...

Cyflwynydd: Llawer o arian?

Ffion: ... a dw i eisiau cael dillad smart ...

Cyflwynydd: Dillad smart?

Ffion: A dw i eisiau cael fila yn Sbaen ... a'r Eidal ... a Groeg ...

Cyflwynydd: Fila yn Sbaen ... a'r Eidal ... a Groeg ...

Ffion: ... a hoffwn i gael car mawr, cŵl ...

Cyflwynydd: Car mawr, cŵl?

Ffion: ... a hoffwn i gael [cariad golygus](#).

Cyflwynydd: Hym hym!

Ffion: [Cariad golygus](#) ... a hoffwn i gael ci bach ciwt ... na, hoffwn i gael pedwar ci bach ciwt - pedwar *bichon frise* gyda dillad smart ...

Cyflwynydd: pedwar *bichon frise*?

Ffion: ... a hoffwn i aros mewn [gwestai](#) pum seren ym Mharis ... a Madrid ... a Milan ...

Cyflwynydd: [Gwestai](#) pum seren?



Ffion: ... a hoffwn i deithio'r byd ... a ...

Cyflwynydd: Iawn, Ffion - maen nhw'n barod.

Ffion: Diolch.

Cyflwynydd: Pob lwc!

Ffion: Pah! Diolch yn fawr.

Cyflwynydd: Wel?

Ffion: Wel?

Cyflwynydd: Wel, sut oedd y clyweliad?

Ffion: Grêt ... gwych ... ffantastig.

Cyflwynydd: O, da iawn.

Ffion:

Roedd e'n wych! Dw i'n mynd i [ennill](#) ac yna bydda i'n gallu cael llawer o arian ... dillad smart ... fila yn Sbaen, yr Eidal a Groeg ... car mawr cŵl ... [cariad golygus](#) ... pedwar *bichon frise* ... aros mewn [gwestai](#) yn Ewrop ... a theithio'r byd. Hwyl fawr!


Cyflwynydd:

Hwyl fawr i ti, Ffion.

Ydych chi eisiau gweld perfformiad Ffion? Dyma ni.

Cyflwynydd:

Mmm? Llawer o arian? Dillad smart? Fila yn Sbaen, yr Eidal a Groeg? Car mawr, cŵl? [Cariad golygus](#)? Pedwar *bichon frise*? Aros mewn [gwestai](#) yn Ewrop? Teithio'r byd? [Ennill](#) y gystadleuaeth? Beth ydych **chi'n** feddwl?



Ffantasi Cymru

Dyma ddau le ffantasi yng Nghymru.

Pentref Portmeirion



Pentref [Eidalaid](#) ydy pentref Portmeirion yng [ngogledd-orllewin](#) Cymru.

Yno, mae [tai](#) lliwgar, siopau diddorol, castell, tai bwyta, [gerddi](#) hyfryd, traeth a llawer mwy.

Syr Clough Ellis Williams adeiladodd y pentref. [Roedd e wedi bod](#) yn teithio yn yr Eidal.

Castell Coch



Mae Castell Coch yn [ne-ddwyrain](#) Cymru, ger Caerdydd.

Castell coch ydy e – mae e'n edrych yn goch tu allan. Mae'r castell yn ddiddorol iawn ac mae ystafelloedd hardd [ynddo fe](#). Mae'r waliau'n arbennig o hardd. Mae [coedwig](#) tu allan.

Mae'r castell yn eitha modern - castell Fictoraidd ydy e. [Cynlluniodd](#) William Burges y castell i John Patrick Crichton-Stuart, 3ydd [marcwis](#) Bute.

[Geirfa](#)


gogledd-orllewin north-west



Eidalaidd	Italian
tai	houses
gerddi	gardens
adeiladu	(to) build
roedd e wedi bod	he had been
de-ddwyrain	south-east
ynddo fe	in it
coedwig	woods, forest
cynllunio	(to) design
marcwis	marquess

Ffilmiau ffantasi

Mae ffilmiau ffantasi'n [boblogaidd](#) iawn heddiw. Beth ydy barn pobl ifanc, [tybed](#)?



Josh

Dw i wrth fy modd gyda ffilmiau ffantasi achos maen nhw'n wahanol i ffilmiau eraill. Dw i'n hoff iawn o dair ffilm *The Lord of the Rings* achos mae'r plot yn wych, mae'r actio'n ardderchog, mae'r [effeithiau arbennig](#) yn anhygoel ac mae'r ffilmio'n hyfryd. Ardderchog heb os nac oni bai.



Harri

Dw i'n cytuno gyda Josh [cant y cant](#) ond mae ffilmiau Harry Potter yn ardderchog hefyd. Mae'r plot yn gyffrous – y da [yn erbyn](#) y drwg. Mae'r [effeithiau arbennig](#) yn anhygoel ac mae'r gerddoriaeth yn wych. Mae'r ffilmio'n anhygoel hefyd. Dyma fy hoff ffilmiau i.



Anissa

Dw i wrth fy modd gyda'r ffilmiau yna hefyd a hoffwn i weld *Fantastic Beasts and Where to Find Them*. Mae'n ffilm [antur](#) ffantasi gan J. K. Rowling ac mae Eddie Redmayne, Katherine Waterston a Colin Farrell yn y ffilm. Mae'n edrych yn dda iawn.



Lyn

Dw i'n cytuno gyda Josh a Harri. Mae'r ffilmiau ffantasi yna'n arbennig iawn ond dw i'n hoffi *Avatar* hefyd achos mae popeth mor hardd yn [y ffilm yna](#). Mae'r lliwiau, yn arbennig, yn wych. Mae'r ffilm yn wahanol iawn i ffilmiau Harry Potter a *The Lord of the Rings* ond mae'n ardderchog.



Ishmael

Dw i ddim yn hoffi *Avatar* – mae'n ddiflas iawn. Mae'n well gen i ffilmiau ffantasi gyda hiwmor fel *Ghostbusters* – mae'n ddoniol iawn. Mae'r actorion yn ardderchog ac mae Melissa McCarthy yn wych. Mae'r stori [braidd yn wirion](#) ond mae'n hwyl.



Carmen

Mae'n well gen i *The Hobbit*. Mae'r [cymeriadau'n](#) ddiddorol iawn ac mae'r plot yn gyffrous. Mae popeth yn y ffilm yn wahanol iawn i [fywyd pob dydd](#) ac mae'n braf [dianc](#) i [fyd](#) ffantasi weithiau.



Geirfa

poblogaidd	popular
tybed	I wonder
effeithiau arbennig	special effects
cant y cant	a hundred percent
yn erbyn	against
antur	adventure
y ffilm yna	that film
cymeriadau	characters
braidd yn wirion	rather silly
bywyd	life



pob dydd


every day

dianc

(to) escape

byd

world



Beth sy'n digwydd?

Edrychwch yn ofalus ar y sioe sleidiau yma ac yna ewch i Dasg 1.



Sleid 1



Sleid 2



Sleid 3




Sleid 4



'Nôl

Nesaf

[Ilun gan dbzer0](#) / [CC GAN](#)



Mynd ar wyliau

Rydych chi'n mynd i wyliau darn o ffilm. Dyma ychydig o help i chi os ydych chi eisiau help.

Geirfa

y lle iawn	the right place
yn union	exactly
gwesty	hotel
bob dydd	every day
ymlacio	(to) relax
hedfan	(to) fly
awyren	aeroplane
prynu	(to) buy

mae'n ddrwg gen i I'm sorry

Sgript

Carwyn: Bore da.

Sophie: Bore da. Croeso.

Carwyn: Diolch. Hoffwn i fynd ar wyliau.

Sophie: Gwych - rydych chi yn [y lle iawn](#), felly.

Carwyn: Da iawn.

Sophie: Sophie ydw i ...

Carwyn: A Carwyn Claude Crawford ydw i.

Sophie: Croeso, Mr. Crawford.

Carwyn: Carwyn ...

Sophie: Iawn, "Carwyn". Ble hoffech chi fynd?

Carwyn: Yma.

Sophie: Yma?

Carwyn: Yma, Sophie ...

Sophie: Ble mae "yma"?

Carwyn: Affrica.

Sophie: I-a-w-n?!? Ond mae Affrica yn lle mawr.

Carwyn: Ydy, dw i'n gwybod.

Sophie: Ble [yn union](#) hoffech chi fynd?

Carwyn: I Kenya.

Sophie: Iawn - i Kenya. Beth hoffech chi wneud yn Kenya?

Carwyn: Hoffwn i fynd ar saffari ... Hoffwn i weld llewod, sebras, jiraffod, eliffantod, crocodeilod, orangwtanod ...

Sophie: Pardwn?

Carwyn: Llewod, sebras, jiraffod, eliffantod, crocodeilod, orangwtanod ...

Sophie: Mae un broblem gyda'r orangwtanod.

Carwyn: O? Beth ydy'r broblem?

Sophie: Does dim orangwtanod yn Kenya.

Carwyn: O ... dim ots!

Carwyn: Hoffwn i fynd mewn balŵn dros y Serengeti ... Mmm - neis iawn. Hoffwn i weld y Victoria Falls. Waw - maen nhw'n hardd ...

Sophie: Mae un broblem gyda'r Victoria Falls, Carwyn.

Carwyn: O? Beth?

Sophie: Dydy'r Victoria Falls ddim yn Kenya.

Carwyn: Beth, dydy'r Victoria Falls ddim yn Kenya?

Sophie: Nac ydyn - maen nhw yn Zimbabwe ... a Zambia.

Carwyn: Zim ... bab ...?

Sophie: Zimbabwe ... a Zambia.

Carwyn: Wel! Wel! O wel, dim ots!

Sophie: Sawl person fydd yn teithio, Carwyn.

Carwyn: Un - dw i'n mynd ar fy mhen fy hun.

Sophie: Ar eich pen eich hun?

Carwyn: Ar fy mhen fy hun ... ie - ar fy mhen fy hun.

Sophie: Ble hoffech chi aros?

Carwyn: O, mewn [gwesty](#) pum seren os gwelwch yn dda?

Sophie: Pum seren.

Carwyn: [Gwesty](#) gyda phwll nofio ... mawr ... braf.

Sophie: Pwll nofio mawr ...

Carwyn: Ie - pwll nofio ... mawr ... hyfryd.

Sophie: Hoffech chi gael brecwast a chinio nos yn y [gwesty](#)?

Carwyn: Wrth gwrs. Hoffwn i gael brecwast **mawr** a chinio **mawr** yn y nos.

Sophie: Hoffech chi gael ystafell sengl neu ddwbl?

Carwyn: Hoffwn i gael ystafell **fawr** - ystafell ddwbl, os gwelwch yn dda.

Sophie: Balconi?

Carwyn: Wrth gwrs, dw i eisiau balconi - balconi **mawr**. Hoffwn i eistedd ar y balconi, yn edrych ar yr anifeiliad.

Sophie: Iawn - dyma [westy](#) mawr hyfryd.

Carwyn: O, waw ... neis iawn.

Sophie: Ac maen nhw'n trefnu safari [bob dydd](#) os ydych chi eisiau.

Carwyn: [Bob dydd](#)? Na, dw i ddim eisiau mynd [bob dydd](#) achos hoffwn i [ymlacio](#) wrth y pwll nofio hefyd.

Sophie: Dim problem.

Sophie: Pryd hoffech chi fynd, Carwyn?

Carwyn: Ym mis Awst. O Awst deg tan Awst dau ddeg pedwar.

Sophie: Iawn - Awst deg ... tan ... Awst dau ddeg pedwar.

Sophie: O ble ydych chi eisiau [hedfan](#)?

Carwyn: Hoffwn i [hedfan](#) o Gaerdydd.

Sophie: Iawn ... ond bydd rhaid i chi newid [awyren](#).

Carwyn: Newid [awyren](#) ... dim problem.

Sophie: Ydych chi eisiau i mi gael pris am y gwyliau yma?

Carwyn: Os gwelwch yn dda.

Sophie: Dyma chi - dyma'r pris.

Carwyn: O, diolch yn fawr.

Carwyn: FAINT?!?!?!?!?

Sophie: Wel, [gwesty](#) pum seren ... pwll nofio ... Kenya ... safari ... mae'n ddrud!

Carwyn: ond dw i ddim eisiau [prynu'r gwesty](#).

Sophie: Wel, mae'r gwyliau yma'n hyfryd iawn ...

Carwyn: Ond ...

Sophie: Mae'n wyliau ardderchog.

Carwyn: Ond ...

Sophie: Mae'n wyliau anhygoel.

Carwyn: Ond ...

Sophie: Ydych chi eisiau i mi fwcio'r gwyliau?

Carwyn: Bwcio'r gwyliau? Dim diolch!

Sophie: O?

Carwyn: Mae'n rhy ddrud!



Sophie: [Mae'n ddrwg gen i.](#)


Carwyn: Ond ... dw i **YN** mynd i weld llewod, sebras, jiraffod, eliffantod, crocodeilod ... **AC** ... orangwtanod!

Sophie: O, ble?

Carwyn: Yn y sŵ.

Sophie: Hwyl fawr!

Carwyn: Hwyl fawr!





Stori'r hen anifeiliaid

Dyma hen stori Gymraeg.

Mae'r anifeiliaid yma yn y stori:

mwyalch



carw



tylluan



eryr



eog



Roedd Culhwch eisiau [priodi](#) Olwen ond doedd tad Olwen ddim yn hapus.

“Rhaid i ti wneud tasgau,” dwedodd tad Olwen.

“Dim problem,” dwedodd Culhwch.

“Rhaid i ti wneud 40 tasg,” dwedodd tad Olwen.

“Dim problem,” atebodd Culhwch.

Un o’r tasgau oedd ffeindio Mabon fab Modron, ond roedd problem.

Ble oedd Mabon fab Modron?

Roedd y [brenin](#) Arthur eisiau helpu Culhwch ac felly aeth e a’i [filwyr](#) i chwilio am Mabon. Un o’r [milwyr](#) oedd Gwrhwr Gwalstawd Ieithoedd. [Roedd e’n gallu](#) siarad pob iaith ac [roedd e’n gallu](#) siarad â’r anifeiliaid hefyd.

Aeth y [milwyr](#) i ofyn am help yr anifeiliaid.

[Yn gyntaf](#), [aethon nhw](#) i siarad â Mwyalch Cilgwri.

“Ble mae Mabon fab Modron?” gofynnodd Gwrhwr.

“Dw i’n [hen](#) iawn,” dwedodd Mwyalch Cilgwri. “Ond dw i ddim yn gwybod ble mae Mabon fab Modron. Dw i eisiau’ch helpu chi, felly dewch gyda fi i weld Carw Rhedynfre.”

Yna, [aethon nhw](#) i siarad â Carw Rhedynfre.

“Ble mae Mabon fab Modron?” gofynnodd Gwrhwr.

“Dw i’n [hen](#) iawn, iawn,” dwedodd Carw Rhedynfre. “Ond dw i ddim yn gwybod ble mae Mabon fab Modron. Dw i eisiau’ch helpu chi, felly dewch gyda fi i weld Tylluan Cwm Cowlyd.”

Yna, [aethon nhw](#) i siarad â Tylluan Cwm Cowlyd.

“Ble mae Mabon fab Modron?” gofynnodd Gwrhwr.

“Dw i’n [hen](#) iawn, iawn, iawn,” dwedodd Tylluan Cwm Cowlyd. “Ond dw i ddim yn gwybod ble mae Mabon fab Modron. Dw i eisiau’ch helpu chi, felly dewch gyda fi i weld Eryr Gwern Abwy.”

[Aethon nhw](#) i siarad ag Eryr Gwern Abwy.

“Ble mae Mabon fab Modron?” gofynnodd Gwrhwr.

“Dw i’n [hen](#) iawn, iawn, iawn, iawn,” dwedodd Eryr Gwern Abwy. “Ond dw i ddim yn gwybod ble mae Mabon fab Modron. Dw i eisiau’ch helpu chi, felly dewch gyda fi i weld Eog Llyn Llyw.”

[Aethon nhw](#) i siarad ag Eog Llyn Llyw.

“Ble mae Mabon fab Modron?” gofynnodd Gwrhryr.

“Dw i ddim yn siŵr,” dwedodd Eog Llyn Llyw. “Ond weithiau dw i’n nofio yn yr afon i fyny at waliau [Caerloyw](#) ac [yno](#) dw i’n gallu clywed sŵn ofnadwy. Dewch gyda fi.”

Felly, eisteddodd Gwrhryr a Cai [ar gefn](#) yr eog ac i ffwrdd â nhw i fyny’r afon.

Tu allan i’r wal, roedden nhw’n gallu clywed sŵn crio ofnadwy. “Helpwch fi! Helpwch fi!”

“Pwy wyt ti?” gofynnodd Gwrhryr.

“Mabon fab Modron ydw i.”

“Wyt ti’n gallu dod allan?”

“Nac ydw, dw i’n [garcharor](#).”

Felly, aeth Cai a Gwrhryr i lawr yr afon [ar gefn](#) yr eog. [Aethon nhw](#) at y [brenin](#) Arthur a dweud, “Rhaid i ni helpu Mabon fab Modron. Mae e’n [garcharor](#) yng [Nghaerloyw](#).”

Aeth Arthur a’i [filwyr](#) i helpu Mabon fab Modron ac felly roedd un o’r tasgau wedi gorffen.

[Geirfa](#)

priodi	(to) marry
brenin	king
milwyr	soldiers
roedd e'n gallu ...	he could ...



pob	every
iaith	language
aeth	(he/she/it) went
yn gyntaf	first
aethon nhw	they went
hen	old
ar gefn	on the back of
Caerloyw	Gloucester
yno	there
carcharor	prisoner

Chwilio am Pokémon



Preswylfa
Abermawr
Powys

01 Chwefror 2017

Annwyl Ciwb,

Ar y ffordd i'r ysgol heddiw, dw i wedi gweld:

- bachgen ifanc yn cerdded i lawr y stryd tua'r parc, yn edrych ar ei ffôn
- merch ifanc yn cerdded i fyny'r stryd, tua'r eglwys, yn edrych ar ei ffôn
- dyn yn [croesi'r](#) ffordd, yn edrych ar ei ffôn (doedd e ddim yn edrych i'r dde nac i'r chwith!)
- plant yn cerdded wrth yr afon, yn edrych ar eu ffonau - [peryglus](#) iawn!

- dyn yn [gyrru'r](#) car, yn edrych ar ei ffôn - [perylus](#) iawn!
- dyn arall mewn car wedi stopio - ar ganol y ffordd - yn edrych ar ei ffôn.

Roedden nhw'n chwilio am *Pokémon* dw i'n meddwl. Mae llawer o bobl yn cael hwyl yn chwilio am *Pokémon* ond yn fy marn i, mae hyn yn [wirion](#)!

Mae chwilio am *Pokémon* yn [berylus](#). Mae'r heddlu'n dweud bod rhai pobl yn cael [damwain](#) yn y car achos maen nhw'n chwilio am *Pokémon* pan maen nhw'n [gyrru](#). Maen nhw'n dweud bod pobl yn stopio'u ceir mewn lleoedd twp i chwilio am *Pokémon* hefyd.

Pam mae pobl eisiau byw ffantasi *Pokémon*? Mae'n well mynd allan gyda ffrindiau, gwneud chwaraeon, cael hwyl yn y dre a mwynhau **gwneud** pethau [yn lle](#) edrych ar sgrin [drwy'r amser](#).

Yn gywir,

Jo Williams

[Geirfa](#)

croesi	(to) cross
perylus	dangerous
gyrru	(to) drive

gwirion	daft
damwain	accident
yn lle	instead of
drwy'r amser	all the time

31 Ionawr 2017

Annwyl Ciwb,

Dw i wrth fy modd yn chwilio am *Pokémon* gyda fy ffrindiau. Rydyn ni'n mynd am dro [o gwmpas](#) y dre i chwilio am y [cymeriadau](#) bach [yn aml](#). Mae'n wych.

Mae rhai pobl yn cael [damwain](#) pan maen nhw'n chwilio am *Pokémon* ond os ydy pobl yn ofalus, mae'n llawer o hwyl. Hefyd, mae chwilio am *Pokémon* yn dda i ni achos rydyn ni'n cerdded (yn lle eistedd o flaen sgrin!), rydyn ni'n dysgu am [bethau](#) yn y dref - [pethau](#) dydyn ni ddim wedi gweld o'r blaen [efallai](#) (fel [darn o gelf](#)) ac rydyn ni'n cael hwyl. Mae chwilio am *Pokémon* yn [rhad](#) hefyd - does dim rhaid i ni dalu i fynd i mewn i'r sinema neu dalu am fwyd mewn caffi.

Dydy *Pokémon Go* ddim yn ffantasi achos mae'n digwydd yn y [byd](#) real!

Yn gywir,

Chris Davies



Geirfa


o gwmpas	around
cymeriadau	characters
yn aml	often
pethau	things
o'r blaen	before, previously
efallai	perhaps
darn o gelf	piece of art
rhad	cheap
byd	world

Parti gwahanol

Rydych chi'n mynd i wrando ar ddau berson yn siarad. Dyma ychydig o help i chi os ydych chi eisiau help.

Geirfa

arian	silver
sgleiniog	shiny
thema	theme
gofod	space
madarch	mushrooms
pasteiod	pasties
siâp	shape



y Lleuad the Moon

sudd juice

Dere Come on

Sgript

Merch: Beth wyt ti'n gwisgo, Ben?

Bachgen: Pam?

Merch: Rwy't ti'n edrych yn ... od!

Bachgen: Od? Diolch yn fawr, Cerys.

Merch: Wel, beth wyt ti'n gwisgo?

Bachgen: Siwt [arian](#), [sgleiniog](#) ac edrycha ... dyma'r helmed i fynd gyda'r siwt.

Merch: Siwt [arian](#) ... [sgleiniog](#) ... a helmed?

Bachgen: Dyna ni – siwt [arian](#), [sgleiniog](#) a helmed.

Merch: Ond pam?

Bachgen: Dw i'n mynd i barti pen-blwydd.

Merch: O?

Bachgen: Parti pen-blwydd fy mrawd bach. Mae o'n ddeg heddiw.

Merch: Ond pam y dillad?

Bachgen: [Thema'r](#) parti ydy "Y [Gofod](#)".

Merch: O, dw i'n gweld. Rwy'ti'n mynd i barti pen-blwydd ... a'r thema ydy "Y Gofod". Cŵl!

Beth fyddwch chi'n ei wneud yno?

Bachgen: Bwyta bwyd y [gofod](#).

Merch: Bwyd y [gofod](#)?

Bachgen: Caws – llawer o gaws ...

Merch: Ha! Ha!

Bachgen: Pitsas gyda thomatos a [madarch](#) – coch fel y blaned Mawrth.

Merch: Neis iawn.

Bachgen: [Pasteiod siâp y Lleuad](#).

Merch: Diddorol!

Bachgen: Brechdanau gwahanol – ar [thema'r gofod](#).

Merch: Gwahanol!

Bachgen: Mae Mam wedi gwneud cacen fawr ddu gyda llun y planedau arni hi.

Merch: Hyfryd!

Bachgen: Ac mae Dad wedi gwneud *punch* arbennig o'r enw "[sudd](#) y planedau".



Merch: Fyddwch chi'n dawnsio?


Bachgen: Byddwn.

Merch: Fyddwch chi'n chwarae gemau?

Bachgen: Dw i ddim yn meddwl. Wyt ti eisiau dod?

Merch: Dim diolch. Does gen i ddim byd i wisgo.

Bachgen: Dim ots! [Dere!](#)



Gwyliau delfrydol

**Gwyliau
ar y
Lleuad**

**Gwyliau yn
Fflorida**



**Gwyliau yn yr
Arctig**

**Sgïo yn
yr Alpau**





**Syrffio yn Sir
Benfro**

**Syrffio yn
California**



Beth fasai'ch gwyliau [delfrydol](#) chi?

	<p>Steph</p>	<p>Hoffwn i deithio yn y gofod</p>
	<p>Chris</p>	<p>Teithio yn y gofod? Pam hoffet ti fynd i'r gofod?</p>



	<p>Steph</p>	<p>Achos hoffwn i fynd mewn roced a hoffwn i deithio drwy'r awyr las i'r gofod tywyll.</p>
	<p>Chris</p>	<p>Ffantasi!</p>
	<p>Steph</p>	<p>Dim o gwbl. Dw i'n cynilo fy arian nawr a bydda i'n mynd i'r gofod un diwrnod.</p>
	<p>Chris</p>	<p>Faint fydd o'n costio?</p>







	<p>Steph</p>	<p>Tua dau gant pum deg mil o ddoleri.</p>
	<p>Chris</p>	<p>FAINT?!?</p>
	<p>Steph</p>	<p>Tua dau gant pum deg mil o ddoleri.</p>
	<p>Chris</p>	<p>Ffortiwn! Mae'n ddrud – mae'n rhy ddrud.</p>



	<p>Steph</p>	<p>Dim o gwbl.</p>
	<p>Chris</p>	<p>Beth sy yn y pris?</p>
	<p>Steph</p>	<p>Hyfforddiant yn America – llawer o hyfforddiant. Yna, teithio mewn grŵp bach (tua 4-5 o bobl) mewn roced arbennig tua 100 cilomedr uwchlaw'r Ddaear.</p>
	<p>Chris</p>	<p>Waw! Beth faset ti'n gwneud ar y roced?</p>



	<p>Steph</p>	<p>Baswn i'n edrych i lawr ar y Ddaear. Hoffwn i weld y môr glas a'r gwledydd. Baswn i'n tynnu lluniau. Baswn i'n symud o gwmpas y roced – hwyl! Efallai baswn i'n bwyta neu'n yfed yn y roced – mae'n anodd iawn.</p>
	<p>Chris</p>	<p>Ffantasi!</p>
	<p>Steph</p>	<p>Wel, beth hoffet ti wneud 'te?</p>
	<p>Chris</p>	<p>Hoffwn i gael gwyliau gwahanol ...</p>



Geirfa

Beth fasai...? What would ... be?

gofod space

awyr sky

tywyll dark

cynilo (to) save

dim o gwbl not at all


hyfforddiant training

uwchlaw above

y Ddaear Earth

gwledydd countries

tynnu lluniau (to) take photographs






Hen, hen stori

Dyma hen, hen stori Gymraeg.

Mae'r anifeiliaid yma yn y stori:



ysgyfarnog



milgi



pysgodyn



dyfrgi



aderyn



hebog



iâr

Roedd Ceridwen, y [wrach](#), yn byw ger y Bala. Roedd hi'n byw gyda Tegid Foel, ei [gŵr](#) hi, Creirfyw, ei [merch](#) hi, a Morfran, ei [mab](#) hi.

Roedd Creirfyw yn hardd iawn, iawn ond roedd Morfran yn [hyll](#) iawn, iawn. Roedd Ceridwen eisiau helpu Morfran.

Gwnaeth hi [ddiod](#) arbennig i Morfran – [diod hud](#). Roedd Gwion Bach, y [gwas](#), yn helpu gyda'r [ddiod](#). Un diwrnod, pan oedd e'n helpu, [llyncodd](#) e dipyn bach o'r [ddiod](#). Roedd Ceridwen [yn wyllt gacwn](#) a rhedodd hi ar ôl Gwion Bach.

Roedd y [ddiod](#) yn [ddiod hud](#), felly [troiodd](#) Gwion Bach yn ysgyfarnog a rhedodd e'n gyflym [oddi wrth](#) Ceridwen. Ond roedd Ceridwen yn [wrach](#). Felly [troiodd](#) hi'n filgi cyflym i redeg ar ôl Gwion.

Rhedon nhw a rhedon nhw [nes](#) ddod at afon. [Troiodd](#) Gwion yn bysgodyn a nofiodd e yn y dŵr. Ond [troiodd](#) Ceridwen yn ddyfrgi a nofiodd hi ar ôl Gwion.

Yn sydyn, neidiodd Gwion allan o'r afon. [Troiodd](#) e'n aderyn a [hedfanodd](#) e. Ond [troiodd](#) Ceridwen yn hebog, a [hedfanodd](#) hi ar ôl Gwion.

Roedd Ceridwen yn [hedfan](#) yn gyflym iawn, iawn. [Troiodd](#) Gwion yn [ronyn gwenith](#) a syrthiodd e i ganol llawer o [wenith](#) ar y llawr. "Gwych!" roedd e'n meddwl, "Dw i'n saff!" Ond [troiodd](#) Ceridwen yn iâr a bwyttodd hi'r [gwenith](#). Bwyttodd hi Gwion.

Naw mis wedyn, cafodd Ceridwen fabi bach – Gwion Bach. Roedd Ceridwen [yn wyllt gacwn](#) gyda Gwion ond roedd e'n fabi hardd. Doedd Ceridwen ddim eisiau [lladd](#) Gwion. Rhoddodd hi fe mewn bag o [ledr](#) a'i [daflu](#) fe i'r môr yn Abermaw.

Ffeindiodd dyn o'r enw Gwyddno Garanhir y bag a helpodd e'r babi bach hardd. Rhoddodd e enw arall i'r babi - Taliesin. Tyfodd Taliesin yn fachgen clyfar iawn. Tyfodd e i fod yn [fardd](#) pwysig.

Oeddech chi'n gwybod?

Llyn Tegid ydy enw'r llyn ger y Bala. Tegid oedd enw [gŵr](#) Ceridwen.

Mae lle o'r enw **Tre Taliesin** i'r gogledd o Aberystwyth – dyna ble ffeindiodd Gwyddno Garanhir y babi – [yn ôl](#) y stori!

[Geirfa](#)

gwrach	witch
gŵr	husband
merch	daughter
mab	son
hyll	ugly



diod	drink
hud	magic
gwas	servant
llyncu	(to) swallow
tipyn bach	a little
yn wylt gacwn	furious
troiodd	he/she turned (<i>troi</i>)
oddi wrth	from
nes	until
hedfan	(to) fly
gronyn	grain



gwenith	wheat
wedyn	afterwards
lladd	(to) kill
lledr	leather
taflu	(to) throw
yn ôl	according to
bardd	poet

